

Cynllun Gweithredu Garddwriaeth Cymru 2020



Cwmni Amcangyfrifau Ewrop ar
gyfer Datblygu Cwning
Bwrdd y Bwrddau Iechyd a Gwilydd Gwilydd
European Agricultural Fund for
Rural Development
European Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Content

Crynodeb Gweithredol: Garddwriaeth fasnachol yng Nghymru, Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

3

Gwybodaeth am Tyfu Cymru: Uwchraddio am byth

5

Addas ar gyfer y dyfodol: Map garddwriaeth yng Nghymru

7

Cefnogaeth wedi'i theilwra ar gyfer y diwydiant: Cynllun tri cham

8

Symud ymlaen: Casgliadau a chamau nesaf

18

Tyfu Cymru
Lantra Wales, Maes Sioe Frenhinol Cymru,
Llanfair-ym-Muallt LD2 3WY
Ff: +44 (0)1982 552646
E: tyfucymru@lantra.co.uk
G: www.tyfucymru.co.uk

Arweinir Tyfu Cymru gan Lantra Wales sy'n gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr.
Rhif cofrestredig: 2823181
Rhif elusen: 1022991
Rhif TAW: 585 3815 08

Mae Tyfu Cymru wedi derbyn cyllid gan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.





Crynodeb gweithredol: Garddwriaeth Fasnachol yng Nghymru, Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

Mae garddwriaeth yn sector twf allweddol i Lywodraeth Cymru. Mae'n hanfodol ar gyfer cyflawni amcanion Cynllun Datblygu Gwledig Cymru ac mae wedi cyfrannu at gyflawni'r uchelgais i dyfu'r sector bwyd a diodydd 30% yn 2020, gan gynyddu trosiant y diwydiant i £7biliwn.

Ond nid mater o dwf beth bynnag fo'r pris yw hyn. Mae mynediad at adnoddau naturiol ac o fewn terfynau fel tir, ynni a dŵr, yn hanfodol i dyfu cynnyrch bwyd ac addurnol. Bydd rheolaeth o'r adnoddau naturiol hyn yn cael ei flaenoriaethu trwy'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, gyda thaliadau fferm wedi'u halinio ag arferion tir cynaliadwy sy'n ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac yn gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth.

At hynny, mae'r Cynllun Strategol newydd ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru yn cynnig bwrw ymlaen ag ymrwymiad i ddatblygu sgiliau'r gweithlu, gan ddefnyddio adnoddau'n gynaliadwy, mynd i'r afael ag iechyd y cyhoedd, yn ogystal â chwrdd â gwerthoedd brand cynaliadwy sy'n anelu at wella Brand Cymru.

Mae'r pandemig presennol hefyd wedi tynnu sylw at ddibyniaeth ar gadwyni cyflenwi byd-eang. Mae hefyd wedi rhoi mwy o bwyslais ar alw defnyddwyr am wybodaeth o darddiad y cynnyrch, sydd eisoes yn sylweddol ac yn cynyddu, a'r angen am gadwyni cyflenwi byrrach, gan gynyddu gwytnwch mewn cynhyrchu sylfaenol a chymunedau gwledig. **Mae hybu ffermio garddwriaeth yn allweddol i gynlluniau Llywodraeth Cymru i ail-godi o'r pandemig coronafeirws ac fe'i nodwyd gan eu Tasglu Adferiad Gwyrdd fel llwybr i gyflymu trosglwyddiad Cymru i economi carbon isel a hybu cenedl iachach, fwy cyfartal.**

Mae'r diwydiant garddwriaeth yng Nghymru mewn sefyllfa dda i gyflawni'r heriau polisi cyfun hyn ac mae'n agor cyfleoedd masnachol i ffermydd arallgyfeirio at arddwriaeth a darparu mynediad i fwy o dir er mwyn i'r sector ehangu.

Dan arweiniad Tyfu Cymru, prosiect a reolir gan Lantra, a chyda chyllid o gynllun Datblygu Cadwyni Cyflenwi a Chydweithio Llywodraeth Cymru, mae'r Cynllun Gweithredu Garddwriaeth Fasnachol hwn ar gyfer Cymru yn **amlinellu dull aml-randdeiliad, cadwyn gyflenwi gyfan, i ddatblygu a chynnal y cynhyrchiad masnachol o gynnyrch garddwriaeth bwydadwy ac addurnol yng Nghymru am y tymor hir.**

Mae'n tynnu ar ein profiad o adeiladu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i wella cynhwysedd a gallu'r diwydiant. Ei nod yw cynyddu cyflawniadau wedi'u profi a fyddant yn parhau i fod o fudd i fusnesau garddwriaeth Cymru. **Mae'n ymateb i anghenion uniongyrchol ac yn darparu arweinyddiaeth i arfogi busnesau â'r wybodaeth a'r sgiliau ymarferol ar gyfer twf gwyrdd a chynhwysol gyda chefnogaeth ymchwil gymhwysol a defnydd priodol o dechnoleg.**

Er mwyn cyflawni hyn, mae'n hanfodol bod y diwydiant garddwriaeth yng Nghymru yn gallu dangos sut y mae'n cyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn **sicrhau bod y diwydiant yn mabwysiadu arferion sy'n cefnogi rheoli adnoddau naturiol, bioamrywiaeth, economi gylchol, iechyd y cyhoedd a chyfrannu at adfywiad economaidd cefn gwlad Cymru.**

Mae gwaith ar y gweill i ddangos ac adrodd ar sut mae gweithgareddau Tyfu Cymru yn galluogi'r diwydiant i gyfrannu at y nodau strategol hyn.



Gwybodaeth am Tyfu Cymru: Uwchraddio am byth

Sefydlwyd prosiect Tyfu Cymru yn 2017, a'i nod yw cefnogi'r sector garddwriaeth fasnachol a Llywodraeth Cymru i wireddu ei amcanion uchelgeisiol o ran twf ac adfywio gwledig drwy ddatblygiad arloesol a chynaliadwy y diwydiant garddwriaeth yng Nghymru.

Cynhaliwyd ein hymchwil gwaelodlin gychwynnol ar y cyd â diwydiant. Amlygodd hyn rai cyfleoedd a heriau allweddol y mae'r sector yn eu hwynebu, a nododd hefyd ble gall busnesau garddwriaeth elwa o bosibl ar gefnogaeth ac ymyrraeth bwrpasol gan y diwydiant. Mae'r canfyddiadau hyn, ochr yn ochr â'n gwaith diagnosteg busnes a sganio parhaus i ddehongli polisïau, marchnad a gyrywyr amgylcheddol a chymdeithasol sy'n newid, yn rhoi ffocws i lawer o weithgareddau allweddol.

Mae'r gweithgareddau canlynol ar waith ar hyn o bryd, gyda'r nod o ymateb i anghenion busnes brys, ac arwain er mwyn cynnal datblygiad y sector am y tymor hir:

1. cyfuniad o hyfforddiant a chefnogaeth fasnachol a thechnegol, drwy'r Hwb Gwybodaeth, Rhwydweithiau Tyfu a Rhaglen Datblygu Proffesiynol Garddwriaeth
2. cronfa ddata'n cynnwys 450 o fusnesau garddwriaeth ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi yng Nghymru, ac ymgysylltu â'r busnesau hynny
3. dull gweithredu gyda llawer o randdeiliad, gan gynnwys arbenigwyr polisi, diwydiant, y byd academiaidd a'r sector, gan bennu grŵp cydweithio CDG, rhannu profiadau gyda grwpiau trydydd sector, a chynnig 'un llais' ar gyfer y sector.

Bwriad Cynllun Gweithredu Garddwriaeth newydd Cymru yw adeiladu ar y canfyddiadau hyn, a nodi'r camau fydd ar waith i uwchraddio'r llwyddiannau hyn mewn ffordd fydd yn parhau i fod yn fanteisiol i fusnesau garddwriaeth Cymru, a hefyd yn bwrw targedau strategol Llywodraeth Cymru. Mae'n cyfeirio at arddwriaeth fwytadwy ac addurnol.



Tyfu Cymru: teilwra cefnogaeth hyblyg ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor y diwydiant garddwriaeth fasnachol yng Nghymru.

Ers lansio yn 2017, mae Tyfu Cymru wedi rhoi hyfforddiant adeiladu capasiti a chefnogaeth benodol i gannoedd o dyfwyr, cyfanwerthwyr a manwerthwyr yn y gadwyn gyflenwi garddwriaeth. Drwy wneud hyn, maent wedi datblygu arbenigedd mewnol sylweddol, drwy roi'r sgiliau sydd eu hangen ar fusnesau garddwriaeth i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y diwydiant garddwriaeth yng Nghymru.

Mae'r **Hwb Gwybodaeth** ar-lein yn rhan allweddol o brosiect Tyfu Cymru. Mae'n cynnwys cyfres o erthyglau sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac adnoddau ar ystod o themâu allweddol sy'n ymateb i anghenion busnes, wrth gynnig arweinyddiaeth ar bynciau fydd yn helpu'r diwydiant i baratoi ar gyfer yr ansicrwydd y mae'n ei wynebu. Y brif gynulleidfa yw busnesau tyfwyr Cymreig, ac mae hefyd yn addas ar gyfer llunwyr polisïau a grwpiau diwydiant ehangach.

Mae'r prif themâu'n cynnwys: Paratoi ar gyfer y dyfodol, Defnydd dŵr, Effeithlonrwydd adnoddau, Bygythiadau pla a heintiau, Dosbarthu pridd a thir, Gwybodaeth am y farchnad, Cyfathrebu, Cydweithio, Technoleg newydd a thyfu arloesol, Mynediad at dir

Mae **Rhwydweithiau** Tyfu Cymru yn elfen arall ar y prosiect. Yn hyn o beth, gwahoddir tyfwyr Cymru i ymuno â gweithdai rheolaidd ac am ddim, a grwpiau trafod ar-lein er mwyn manteisio ar gyfleoedd masnachol, sgysiau ac ymweliadau astudio arbenigol sydd â'r nod o fynd ar ôl yr heriau cyffredin y mae busnesau'n eu hwynebu. Bydd y Rhwydweithiau hyn yn blatfform ar gyfer meddwl cydlynol ledled y diwydiant, gyda'r nod o lywio polisïau Llywodraeth Cymru, gwella gallu busnesau i oresgyn rhwystrau o ran twf, ehangu'r cynnig i farchnadoedd newydd ac adeiladu gwydnwch tyfwyr unigol, y sector yng Nghymru a thu hwnt.

Nod **Rhaglen Datblygu Proffesiynol Garddwriaeth** Tyfu Cymru yw paratoi'r diwydiant garddwriaeth yng Nghymru ar gyfer y dyfodol. Bydd yn gwneud hyn drwy ddarparu'r hyfforddiant perthnasol i roi'r sgiliau masnachol sydd eu hangen ar fusnesau garddwriaeth i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd twf. Bydd cyfranogwyr o fusnesau cymwys yn cael mynediad at raglen unigryw o ddsbarthiadau meistr a hyfforddiant arweinyddiaeth, a ddarperir gan Tyfu Cymru a'u rhwydwaith o arbenigwyr yn y sector.

Dyma rai dosbarthiadau meistr: Arweinyddiaeth, Strategaeth a chreu gweledigaeth, Datblygiad a chyllid busnes, Marchnata strategol, Cyflogi, cadw a rheoli pobl, Cyfryngau digidol, ar-lein a chymdeithasol, Rheoli newid ac arloesedd, Pecynnu ac effeithlonrwydd y broses, Rheoli'r gadwyn gyflenwi, Cynllunio dilyniant.

Addas ar gyfer y dyfodol: Map garddwriaeth yng Nghymru

Mae Cynllun Gweithredu Garddwriaeth Fasnachol Cymru yn cynnwys 4 ffrwd waith â blaenoriaeth sy'n ymateb i'n hymchwil parhaus ac ymgynghoriadau gyda diwydiant. Maent yn bwriadu grymuso cwmnïau garddwriaeth y mae tyfwyr a chynhyrchwyr yn berchen arnynt ym mhob rhan o Gymru, gan roi'r capasiti a'r gallu iddynt i ddatblygu a thyfu busnesau, ac i arddangos sut mae'r diwydiant yn cyfrannu at gyflawni targedau polisi strategol.

Wedi'u cyflawni mewn partneriaeth â rhanddeiliaid a gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, mae'r ffrydiau gwaith hyn yn gyfuniad o arweinyddiaeth strategol, datblygiad sgiliau, hyfforddiant a chymorth wedi'i deilwra i gefnogi anghenion busnes brys, ac i gynnal datblygiad y sector yn y tymor hir. Drwy addasu yn unol â thystiolaeth yn deillio o sganio gorwelion parhaus a dadansoddi diagnosteg busnes, mae'r dull hwn yn cynnig manteision cymdeithasol, amgylcheddol a masnachol i fusnesau ac economi Cymru.

Ffrwd waith 1: Pobl a Sgiliau.

Adnabod anghenion sgiliau busnesau garddwriaeth fasnachol Cymru a chynnig hyfforddiant a datblygiad sgiliau i'r sector i alluogi busnesau i fod yn fwy cynhyrchiol, proffidiol, ac yn barod ar gyfer heriau'r dyfodol.

Ffrwd waith 2: Busnes a Buddsoddiad.

Paratoi cwmnïau garddwriaeth y mae tyfwyr a chynhyrchwyr yn berchen arnynt ledled Cymru i addasu yn unol â heriau masnachol, a pharatoi ar gyfer cyfleoedd yn y farchnad.

Ffrwd waith 3: Cwsmeriaid a Marchnadoedd.

Sicrhau bod marchnadoedd presennol wedi'u hamddiffyn, a bod modd manteisio i'r eithaf ar farchnadoedd newydd.

Ffrwd waith 4: Cyfathrebu ac Ymgysylltu.

Integreiddio pob ffrwd waith, fel bod modd bodloni pob targed.

Cefnogaeth wedi'i theilwra ar gyfer y diwydiant: Cynllun tri cham

Gwahoddir pob busnes sy'n cael mynediad at hyfforddiant a chymorth i wneud gwaith diagnosteg ar eu perfformiad presennol. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael eu cyfeirio at y ffrydiau gwaith priodol ac yn derbyn y lefel gywir o gymorth.

1.

Cam 1: Ymgysylltu

Mae pob busnes yn gwneud gwaith diagnosteg.

Mae dadansoddiad yn eu cyfeirio at y ffrwd waith briodol

2.

Cam 2: Gweithredu

Ffrwd waith 1: Pobl a Sgiliau

Ffrwd waith 2: Busnes a Buddsoddiad

Ffrwd waith 3: Cwsmeriaid a Marchnadoedd

Ffrwd waith 4: Cyfathrebu ac Ymgysylltu

3.

Cam 3: Deilliannau

Dylunir pob ffrwd waith i fodloni DPA penodol gan gynnwys gwydnwch, buddion iechyd, bioamrywiaeth a llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae hyn yn sicrhau bod pob deilliant yn fuddiol i ddiwydiant, economi Cymru wledig a chenedlaethau'r dyfodol

Bydd pob ffrwd waith yn cyflawni amcanion allweddol ar gyfer busnesau garddwriaeth fasnachol addurnol a bwytadwy. Disgrifir y rhain isod, yn ogystal â sut byddant yn cael eu cyflawni, a chan bwy. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo cyllid ar gyfer Tyfu Cymru tan 2023, gyda llawer o'r gweithgareddau hyn eisoes ar waith ac yn barhaus. Mae angen dull aml-randdeiliaid ar lawer o'r amcanion hyn, gan gynnwys polisi, diwydiant, y byd academiaidd ac arbenigwyr y sector, yn ogystal â phrosiectau CDG eraill a grwpiau 3ydd sector. Bydd grwpiau o randdeiliaid yn cael eu haseinio i bob amcan, a nodir y mesurau at ddibenion dangosol yn unig.

Ffrwd waith 1: Pobl a Sgiliau

Deiliant Arfaethedig: adnabod anghenion sgiliau busnesau garddwriaeth fasnachol Cymru ac yna darparu hyfforddiant a datblygiad sgiliau i'r sector, er mwyn galluogi busnesau i fod yn fwy cynhyrchiol, proffidiol ac yn barod ar gyfer heriau'r dyfodol.

Amcanion Allweddol	Cyflawnir drwy	Gan bwy	Mesur
Dylunio rhaglen hyfforddiant a sgiliau dan arweiniad diwydiant, fydd yn cynnig cyfleoedd datblygiad technegol a busnes i dyfwr masnachol	<p>sganio gorwelion i ddehongli gyfwr polisi, y farchnad, amgylcheddol a chymdeithasol</p> <p>adnoddau diagnosteg i asesu bylchau o ran sgiliau busnesau garddwriaeth a'u hanghenion hyfforddiant</p> <p>darparu cymorth i anghenion brys busnesau</p> <p>hyfforddiant ar arweinyddiaeth ar gyfer cynaliadwyedd hirdymor</p>	<p>Tyfu Cymru</p> <p>Arbenigwyr y sector</p>	<p>Asesu busnesau</p> <p>Diwrnodau hyfforddiant</p> <p>Gwerthuso deilliannau / manteision</p>
Datblygu rhwydweithiau busnes garddwriaeth	<p>Mae'r Rhwydweithiau Tyfwyr o fewn prosiect Tyfu Cymru yn galluogi tyfwyr Cymreig i ymuno â gweithdai rheolaidd am ddim, a grwpiau trafod ar-lein, er mwyn manteisio ar gyfleoedd masnachol, sgyrsiau arbenigol ac ymweliadau astudio sydd â'r nod o fynd ar ôl yr heriau cyffredin y mae'r busnesau hyn yn eu hwynebu.</p>	<p>Tyfu Cymru</p> <p>Prosiectau CDG</p> <p>Cyswllt Ffermio</p> <p>Clwstwr 201 Is-adran Bwyd LIC</p>	<p>Rhwydweithiau wedi'u creu</p> <p>Dirprwyon yn cymryd rhan</p> <p>Gwerthuso deilliannau / manteision</p>

Amcanion Allweddol	Cyflawnir drwy	Gan bwy	Mesur
<p>Ysbrydoli arweinwyr Garddwriaeth y dyfodol</p>	<p>Rhaglen Datblygiad Proffesiynol Garddwriaeth, wedi'i meincodi yn erbyn rhaglenni DPP rhyngwladol (gan gynnwys AHDB SmartHort)</p> <p>Creu categori yng Ngwobrau Lantra ar gyfer busnesau garddwriaeth fasnachol sy'n amlwg wedi ymrwymo i hyfforddi</p> <p>Ymrwymo i gael Llysgenhadon yn y diwydiant garddwriaeth.</p>	<p>Tyfu Cymru</p> <p>Lantra</p> <p>Arbenigwyr y sector</p>	<p>Busnesau'n cael hyfforddiant</p> <p>Gwerthuso deilliannau / manteision</p> <p>Enwebeion Gwobrau Lantra</p> <p>Llysgenhadon</p>
<p>Paratoi diwydiant garddwriaeth Cymru ar gyfer heriau cymdeithasol-economaidd ac amgylcheddol, ac ansicrwydd</p>	<p>Gweithio gyda diwydiant a Llywodraeth Cymru i bennu a mynd ar ôl anghenion sgiliau newidiol y diwydiant gan gynnwys rhai organig, arallgyfeirio ffermydd, cnydau a chynnyrch amgen, heriau llafur a chreu cyfleoedd i leddfu newid yn yr hinsawdd.</p>	<p>Tyfu Cymru</p> <p>Llywodraeth Cymru</p> <p>Y byd academaidd</p> <p>Arbenigwyr y sector</p>	<p>Cytuno ar gamau gweithredu</p> <p>Rhoi'r camau gweithredu ar waith</p> <p>Gwerthuso deilliannau / manteision</p>
<p>Datblygu fframwaith ymgynghoriaeth fel bod modd i fusnesau tyfwyr gael mynediad at arbenigedd allanol</p>	<p>Bydd cronfa o arbenigwyr yn cael ei recriwtio'n barhaus drwy'r System Bwrcasu Deïnamig ar GwerthwchiGymru er mwyn ymateb i, a chyflawni yn erbyn, anghenion busnes newidiol megis cyngor agronomeg, dulliau cynhyrchu effeithlon a llwybrau i'r farchnad gan gynnwys manwerthu, cyfanwerthu ac uniongyrchol.</p>	<p>Tyfu Cymru</p>	<p>Aseinio arbenigwyr</p> <p>Gwerthuso deilliannau / manteision</p>

Ffrwd waith 2: Busnes a Buddsoddiad.

Deilliant Arfaethedig: Paratoi cwmnïau garddwriaeth y mae tyfwyr a chynhyrchwyr yn berchen arnynt ledled Cymru i addasu i heriau masnachol a'u rhoi mewn sefyllfa i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd masnachol i ddatblygu a thyfu busnes.

Amcanion Allweddol	Cyflawnir drwy	Gan bwy	Mesur
Ysgogi twf o ran cynhyrchu cynradd – datblygu capasiti a galluedd y sector garddwriaeth fasnachol	<p>Adnabod cyfleoedd twf a rhoi cymorth i fusnesau'r diwydiant i uwchraddio a chymryd mantais</p> <p>Adnabod lle mae angen buddsoddiad, ffynonellau posibl a bylchau o ran cyllid</p> <p>Adnabod yr ardaloedd yng Nghymru sy'n addas ar gyfer garddwriaeth – Dosbarthiad Tir Amaethyddol LIC 2020</p>	<p>Tyfu Cymru</p> <p>Prosiectau CDG</p>	<p>Busnesau'n cael cymorth</p> <p>Busnesau'n cael buddsoddiad</p> <p>Amrywio / defnydd tir</p>
Adnabod heriau go iawn, a heriau posibl i'r diwydiant, yn ogystal â chyfleoedd dros y bum mlynedd nesaf	<p>Arolwg tyfwyr</p> <p>Gwerthuso canfyddiadau yn erbyn cyflawniad y dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol</p> <p>Sganio gorwelion er mwyn dehongli gyrwyr polisi a gyrwyr y farchnad, gyrwyr amgylcheddol a chymdeithasol</p> <p>Adrodd sut mae gweithgareddau Tyfu Cymru yn galluogi'r diwydiant i gyfrannu at Dargedau Lles.</p>	<p>Tyfu Cymru</p>	<p>Busnesau'n llenwi'r arolwg</p> <p>Bodloni'r dangosyddion perfformiad allweddol</p> <p>Adnabod dangosyddion perfformiad allweddol newydd</p>

Amcanion Allweddol	Cyflawnir drwy	Gan bwy	Mesur
Mwy o ddefnydd o wybodaeth o safon a chymorth busnes gan fusnesau garddwriaethol	Datblygu Hwb Gwybodaeth ar-lein Cysylltu a chyfeirio at raglenni cymorth ehangach Llywodraeth Cymru megis Busnes Cymru	Tyfu Cymru Llywodraeth Cymru	Busnesau'n defnyddio cymorth ar-lein Atgyfeiriadau busnes
Gwella effeithlonrwydd cynhyrchu garddwriaeth	Rhaglen hyfforddiant targedig DPP arobryn yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd technolegol, amgylcheddol a gweithredol	Tyfu Cymru Sefydliadau Addysg Uwch	Busnesau'n cael hyfforddiant Gwerthuso deilliannau / manteision
Mwy o fynediad i fusnesau garddwriaethol at grantiau busnes ffermydd a gwasanaethau ac adnoddau prif-ffrwd eraill Llywodraeth Cymru	Cefnogaeth well o ran heriau technegol a masnachol gan gynnwys prosesu, pecynnu, gwerthu a rhannu. Mapio cymorth busnesau a grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer garddwriaeth. Mapio cynlluniau cyllid y DU ar gyfer garddwriaeth. Ymgysylltu â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.	Tyfu Cymru Prosiectau CDG Llywodraeth Cymru	Busnesau'n derbyn cymorth. Busnesau'n ymgeisio am grantiau. Busnesau'n mabwysiadu ymarferion / mathau cynaliadwy.

Amcanion Allweddol	Cyflawnir drwy	Gan bwy	Mesur
Buddsoddiad yn dod i Gymru o dros y ffin	Rhaglen baru i ymgysylltu â'r cwmnïau mwy, fyddai o bosibl yn elwa ar ddatblygu cadwyn cyflenwi garddwriaeth Gymreig.	Tyfu Cymru Llywodraeth Cymru	Busnesau wedi'u cysylltu
Adnabod "cwmnïau angor" garddwriaeth	Datblygu mecanwaith i flaenoriaethu rheoli cyfrif allweddol i fusnesau rhanbarthol sy'n werthfawr ac yn galluogi cynaliadwyedd.	Tyfu Cymru Llywodraeth Cymru	Pennu cyfrifon allweddol

Ffrwd waith 3: Cwsmeriaid a Marchnadoedd.

Deilliant Arfaethedig: sicrhau bod marchnadoedd presennol yn cael eu hamddiffyn, a bod modd manteisio i'r eithaf ar farchnadoedd newydd.

Amcanion Allweddol	Cyflawnir drwy	Gan bwy	Mesur
Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd gyda marchnadoedd newydd, datblygol, lleol ac amgen.	<p>Galluogi busnesau i fod yn barod ar gyfer cyflenwi.</p> <p>Annog cadwyni cyflenwi byrrach a lleol.</p> <p>Hyrwyddo tarddiad ac ansawdd cynnyrch Cymreig.</p> <p>Cysylltiad â phartneriaid twristiaeth Cymreig.</p> <p>Diffinio a hyrwyddo cymwysterau cynaliadwyedd diwydiant garddwriaeth Cymru, a llywio gwaith Is-adran Bwyd LIC ar Werthoedd Brandiau Cynaliadwy.</p> <p>Digwyddiadau cwrdd â'r cynhyrchwr – cyflenwr i brynwr, a chyflenwr i gyfanwerthwr.</p>	<p>Tyfu Cymru</p> <p>Prosiectau CDG</p> <p>Prosiect Helix</p> <p>Arbenigwyr y sector</p>	<p>Busnesau'n cael cwsmeriaid / gwerthiannau newydd.</p> <p>Adrodd am gynaliadwyedd strategol targedau'n cael eu mabwysiadu, ac yn cael eu cyflawni.</p> <p>Digwyddiadau'n cael eu cynnal.</p>

Amcanion Allweddol	Cyflawnir drwy	Gan bwy	Mesur
<p>Rhagweld tueddiadau a galw'r farchnad yn y dyfodol</p>	<p>Sgano i adnabod a rhagweld heriau a chyfleoedd newydd, a rhai sy'n dod i'r amlwg.</p> <p>Gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ymysg y diwydiant.</p>	<p>Tyfu Cymru</p>	<p>Gwneud gwaith cyfathrebu</p> <p>Cynnal digwyddiadau</p>
<p>Mwy o gyfleoedd digidol i dyfwyr</p>	<p>Cynnig cyfleoedd hyfforddiant a chymorth digidol.</p>	<p>Tyfu Cymru</p> <p>Cyflymu Busnes Cymru</p>	<p>Busnesau'n derbyn cymorth.</p> <p>Cynnal hyfforddiant.</p> <p>Gwerthuso'r deilliannau / manteision</p>
<p>Datblygu cyfeirlyfr cyflenwyr masnachol</p>	<p>Creu a chynnal cronfa ddata o fusnesau garddwriaeth fasnachol yng Nghymru, ymchwilio i'r potensial i'w droi yn gyfeirlyfr cyflenwyr.</p> <p>Arddangos cynnyrch Cymreig drwy ddigwyddiadau cyflenwr i brynwr.</p>	<p>Tyfu Cymru</p>	<p>Busnesau'n cael eu cynnwys ar y gronfa ddata.</p> <p>Prynwyr yn defnyddio'r cyfeirlyfr.</p> <p>Cynnal digwyddiadau</p>
<p>Ysgogi twf gwyrdd ac adeiladu gwydnwch ymysg cadwyni cyflenwi</p>	<p>Gwaith diagnosteg unigol gyda busnesau garddwriaeth.</p> <p>Themâu ffocws yr Hwb Gwybodaeth.</p> <p>Datblygu rhwydweithiau.</p> <p>Rhaglen Datblygu Proffesiynol Garddwriaeth.</p>	<p>Tyfu Cymru</p> <p>Arbenigwyr y sector</p>	<p>Asesu busnesau.</p> <p>Dirprwyon yn cymryd rhan.</p> <p>Gwerthuso deilliannau / manteision</p>

Ffrwd waith 4: Cyfathrebu ac Ymgysylltiad.

Deilliant Arfaethedig: Mae hon yn thema sy'n trawstorri, a bydd yn cael ei hintegreiddio i bob ffrwd waith arall er mwyn galluogi bod eu targedau'n cael eu cyflawni.

Amcanion Allweddol	Cyflawnir drwy	Gan bwy	Mesur
<p>Darparu 'llais y diwydiant' i'r sector garddwriaeth fasnachol yng Nghymru.</p>	<p>Pennu llwybrau cyfathrebu clir rhwng polisi a diwydiant.</p> <p>Cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu Tyfu Cymru.</p> <p>Presenoldeb ar-lein drwy wefan prosiect Tyfu Cymru a'r cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Ffeithlun o bartneriaid prosiect garddwriaeth a ariennir gan GDG i adnabod map cymorth.</p> <p>Cynllun Cyfathrebu Tyfwyr i wella sefyllfa busnesau Cymru.</p> <p>Adrodd ar sut mae gweithgareddau Tyfu Cymru'n galluogi'r diwydiant i gyfrannu at Dargedau Lles.</p>	<p>Tyfu Cymru</p> <p>Prosiectau CDG</p> <p>Diwydant, polisi a grwpiau 3ydd sector</p>	<p>Cyhoeddi cynlluniau</p> <p>Cynnal cyfarfodydd</p> <p>Ymgysylltu â phartneriaid</p> <p>Gwerthuso'r deilliannau / manteision</p>

Amcanion Allweddol	Cyflawnir drwy	Gan bwy	Mesur
<p>Cynnal gwybodaeth gyfredol am y Farchnad Lafur sy'n berthnasol i'r sector garddwriaeth yng Nghymru</p>	<p>Cronfa ddata gyfredol o fusnesau garddwriaeth fasnachol yng Nghymru</p> <p>Arolwg data gwaelodlin ar gyfer garddwriaeth bwydadwy</p> <p>Arolwg gofynion llafur</p>	<p>Tyfu Cymru</p> <p>Llywodraeth Cymru</p> <p>Diwydiant a grwpiau 3ydd sector</p>	<p>Rhannu gwybodaeth a gweithredu arni</p> <p>Cyfathrebu'r deilliannau</p>
<p>Dathlu unigrywiaeth ac ansawdd cynnyrch Cymreig</p>	<p>Dolen at Brand Cymru</p> <p>Dolen at Blas Cymru (bwydadwy yn unig)</p>	<p>Tyfu Cymru</p> <p>Llywodraeth Cymru</p>	<p>Cyfathrebu gwerthoedd brandiau a gweithredu arnynt</p> <p>Presenoldeb mewn digwyddiadau</p>
<p>Hwyluso grwpiau a chyfleodd cydweithio</p>	<p>Pennu grŵp llywio aml-randdeiliaid</p> <p>Cael consensws ar weledigaeth ar gyfer y sector</p> <p>Gyrru ymgysylltiad a hwyluso cydweithrediad gyda phrosiectau sy'n ymwneud â ChDG</p> <p>Creu map cymorth i fusnesau garddwriaeth</p>	<p>Tyfu Cymru</p> <p>Prosiectau CDG</p> <p>Grwpiau diwydiant, academiaidd, 3ydd sector ac arbenigwyr y sector</p>	<p>Ymrwymiad a chefnogaeth HAP</p>

Symud ymlaen: casgliadau a chymau nesaf

Nod y Cynllun Gweithredu Garddwriaeth Fasnachol hwn ar gyfer Cymru yw bod yn fanteisiol i fusnesau garddwriaeth Cymru, a bodloni targedau strategol Llywodraeth Cymru. Mae'n bwriadu cynnig cyfuniad o arweinyddiaeth strategol, datblygu sgiliau, hyfforddiant a chymorth i alluogi datblygiad arloesol a chynaliadwy y diwydiant garddwriaeth yng Nghymru.

Mae'n trafod cyfres o gamau gweithredu ymarferol sydd â'r nod o gyflawni'r uchelgais hon drwy ddefnyddio dull aml-randdeiliaid, cadwyn gyflenwi gyfan, gan gynnwys partneriaid polisi, diwydiant, y byd academiaidd, arbenigwyr y sector a'r CDG i gefnogi datblygiad y farchnad, hyrwyddo twf cynhwysol a diogelu ein hadnoddau naturiol. Drwy ddefnyddio tystiolaeth o sganio gorwelion diwydiant, a dadansoddi anghenion busnes, bydd y Cynllun Gweithredu hwn yn parhau i gael ei adolygu o ran ansicrwydd, heriau neu gyfleoedd i'r dyfodol, gan gynnwys y rheiny a ddaw yn sgil Brexit a Covid 19.

Ymhellach i hyn, bydd y Cynllun Gweithredu hwn yn arddangos y manteision cymdeithasol, amgylcheddol a masnachol i fusnesau garddwriaeth ac economi Cymru drwy weithio tuag at saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a bodloni themâu trawstoriadol Rhaglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru.

